Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

29ain o Ebrill 2024

Annwyl Riant/ Gwarcheidwad,

Mae prydlondeb yn bwysig iawn ac yn ofyniad hanfodol i gymryd rhan llawn ym mywyd yr ysgol, yn ogystal â bod yn wers bywyd pwysig i'w dysgu ar gyfer y dyfodol. Mae disgwyl i bob disgybl fod **yn yr ysgol bob dydd erbyn 8:30yb**, ac mae prydlondeb yn cael ei fonitro bob dydd gyda chanlyniadau i ddilyn ar gyfer disgyblion sy'n rheolaidd yn hwyr. Yn anffodus, mae nifer fach o'n disgyblion yn hwyr i wersi yn rheolaidd, tra bod y mwyafrif o ddisgyblion yn wych ac yn brydlon i wersi.

Mae disgyblion sydd â phresenoldeb isel yn yr ysgol, yn colli allan ar eu haddysg ac yn cael llai o gyfle i lwyddo a chyrraedd eu potensial. Mae strategaethau presenoldeb ar waith, sy'n cynnwys hysbysiadau cosb a chamau llys ar gyfer pobl sydd ddim yn mynychu'n rheolaidd. Gwnewch bob ymdrech i sicrhau bod gan eich plentyn gofnod presenoldeb rhagorol ac felly'n rhoi'r cyfle gorau posibl iddynt wneud yn dda yn yr ysgol.

Rydym yn cymryd y camau canlynol i geisio gwella prydlondeb. Er mai'r lleiafrif sy'n hwyr yn rheolaidd, teimlwn ei bod yn bwysig gweithredu'r canlynol yn gyson i bawb.

- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd prydlondeb da yn ystod sesiynau tiwtor a gwasanaethau boreol

- Monitro prydlondeb wrth y gât bob bore, ac ym mhob gwers, gyda staff yn recordio pan fydd disgybl yn fwy na 5 munud yn hwyr i unrhyw wers heb reswm dilys/awdurdodedig gan aelod o staff

- Rydym wedi gweithredu system toiledau newydd i ddisgyblion yn ystod amser gwersi – gweler llythyr blaenorol

- Canlyniadau i ddisgyblion sy'n hwyr yn rheolaidd gan gynnwys: sesiynau dilyniant cinio ac/neu ar ôl ysgol a chyfarfodydd gyda rhieni.

Fel rhieni a gwarcheidwaid, gofynnwn i chi siarad â'ch plentyn/plant am yr uchod a'u hatgoffa o bwysigrwydd prydlondeb da a phresenoldeb rhagorol.

Mae eich cefnogaeth gyda'r uchod yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Yn gywir

Mark Bridgens

(Pennaeth Cynorthwyol)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n parchu hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales